

Tasg 2

(Estynnol, sbardun 3)

Sylwch ar y brawddegau hyn:

Enillodd Llywelyn lawer o diroedd ...
Gwnaeth Llywelyn gytundeb ...
Ceisiodd Dafydd ladd Llywelyn ...
Dechreuodd Dafydd ryfel yn erbyn Edward I...

Mae 'llawer', 'cytundeb', 'lladd', 'rhyfel' yn **treiglo'n feddal** ar ôl y berfau cryno (byr).

Y **peth sy'n cael ei ennill**, wneud, ceisio, dechrau sy'n treiglo:

Enillodd Llywelyn (*beth?*) lawer o diroedd.

Nawr gwnewch chi frawddegau cywir gan ddefnyddio'r geiriau hyn.

Geiriau	Brawddeg gywir
1. Cefais + brechdan + i ginio	
2. Cofiwch + dod + i'r wers	
3. Collodd + Huw + punt	
4. Gwelaf + tonnau'r môr + ar fy ngwyliau nesaf	
5. Yfon nhw + gwydraid o ddŵr	
6. Dechreuon ni + rhedeg + ar ôl y bws	
7. Dringwn + mynydd + y penwythnos nesaf	
8. Darllenais + llyfr + dros y gwyliau	
9. Ceisiwch + cofio + popeth + yfory.	